# BWRDD CYNLLUN HIRDYMOR Y DREF (CHyD)

## 26 MAWRTH 2024

### COFNODION

**Yn Bresennol:** Paul Gray (Cadeirydd); Gerald Jones AS; Alyn Owen; Cyng Geraint Thomas; Cyng Andrew Barry; Zoe Thomas; Paul Lewis; Victoria Parry; Ceri Dinham; Lis Mclean; Stephen Jones HDC; Sharon Richards; Lance Whiteley; Karen Courts; Elizabeth Bedford.

**Ymddiheuriadau:** Ellis Cooper, Alun Evans, Lisa Thomas

| MATER | CAMAU GWEITHREDU | GAN | ERBYN |
|---|---|---|---|
| **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | | | |
| Ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Croesawodd PG bawb i'r cyfarfod. | | | |
| **Cyflwyniad Rhaglen CHyD** | | | |
| Cyflwynodd ZT Raglen CHyD Llywodraeth y DU gan gynnwys y canllawiau a'r hyn a ddisgwylir gan y Bwrdd.<br><br>Esboniodd ZT bod angen iddi hysbysu Llywodraeth y DU bod y Bwrdd wedi cynnal ei cyfarfod cyntaf cyn 1 Ebrill. Hefyd, mae angen i'r bwrdd craidd edrych ar benodi cynrychiolaeth ychwanegol a allai gynnwys Grwpiau Ffydd lleol, Grwpiau Chwaraeon, Iechyd a Busnes Preifat, yn unol â chanllawiau'r rhaglen. Bydd angen i'r Bwrdd hefyd ystyried sut i ddenu cyllid ychwanegol a chynnal ymgynghoriad / ymgysylltu i lywio'r Cynllun Hirdymor yn y dyfodol.<br><br>Cododd GJ y cwestiwn am derfynau amser ymgynghori. Ymatebodd ZT fod angen adolygiad ar Gynllun Creu Lleoedd Canol y Dref oherwydd y newidiadau niferus yng Nghanol y Dref ers mabwysiadu'r Cynllun gan gynnwys caffael y Ganolfan Siopa, y Pandemig a darparu prosiectau. Yng ngoleuni hyn, cynhelir ymgynghoriad manwl ym mis Ebrill dan arweiniad Y Trefolwyr a bydd hyn yn cyd-fynd â Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Cynllunio Cymru. | Cyflwyniad i'w rannu. | ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gall yr ymgynghoriad gefnogi adolygiad y Cynllun Creu Lleoedd a llywio'r Cynllun Trefi yn y dyfodol.<br><br>Cododd GJ bryderon ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau mewnbwn gan bobl ar draws y gymuned. Eglurodd ZT y bydd yr ymgynghoriad yn targedu trigolion lleol, busnesau, ysgolion, y Coleg a rhanddeiliaid allweddol. Bydd presenoldeb ar-lein hefyd. Bydd ZT hefyd yn gweithio â Chyfathrebiadau Corfforaethol i hyrwyddo'r ymgynghoriad.<br><br>Argymhellodd GT y dylai Swyddog Cynllunio hefyd eistedd ar Fwrdd y Dref fel ymgynghorydd oherwydd cyfyngiadau mewn perthynas â Chynllunio ar draws Canol y Dref. Bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth o sut y gallwn ddod ag adeiladau a threftadaeth yn ôl i ddefnydd.<br><br>Cododd AB bryderon ynghylch sut mae canol y dref yn edrych yn 2024.  Mae agweddau wedi newid ac mae angen i'r Bwrdd ystyried sut fydd y prif strydoedd yn edrych yn y dyfodol. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd ystyried yr ardal ehangach fel y Parc Manwerthu, Trago a'r Parc Hamdden llwyddiannus a sut mae'r rhain i gyd yn ffitio.<br><br>Mynegodd SJ bryderon am flinder ymgynghori, gan fod SWP hefyd yn siarad â'r cyhoedd ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth. Roedd SJ yn cynnig help gyda rhannu gwybodaeth. Hefyd, roedd awgrym i ystyried bod y Gwasanaeth Prawf yn rhan o'r Bwrdd oherwydd problemau yng nghanol y dref.<br><br>Dywedodd GT ei bod yn hanfodol bod y grwpiau chwaraeon fel Clwb Pêl-droed Merthyr a’r Clwb Rygbi yn cael eu gwahodd i ymuno â'r Bwrdd.<br><br>Cododd LM bryderon ynghylch y posibilrwydd o newid llywodraeth yn y dyfodol a thrafodwyd y dylai'r egwyddorion aros yr un fath os bydd hynny’n digwydd. Hefyd, mae ymgysylltu llwyddiannus yn Theatr Soar wedi gwneud Soar y llwyddiant - mae ymgysylltu yn hynod bwysig i lywio cynlluniau a hefyd, mae angen cynnwys defnyddio'r Gymraeg yn yr ymgynghoriad. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trafododd y Bwrdd yr angen i ffurfio Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau er mwyn cael cyngor arbenigol ar beth i'w wneud ag Adeiladau Treftadaeth. Mae gan Ferthyr Ymddiriedolaeth Treftadaeth hefyd.<br><br>Eglurodd AO fod gan y Bwrdd hwn berchnogaeth ffurfiol i yrru'r cynllun yn ei flaen ac mae pob Aelod yn gyfrifol am rannu gwybodaeth a dod â gwybodaeth yn ôl i'w thrafod. Mae angen ystyried hawliau pleidleisio.<br><br>Teimlai GJ fod hwn yn drefniant da wrth symud ymlaen a thynnu sylw at yr angen i Dawn Bowden AS, gael ei chynnwys ar y Bwrdd i sicrhau cyswllt LlC. | | | |
| **Llywodraethu / CG / Rholiau a Chyfrifoldebau** | | | |
| Esboniodd ZT nad oes gennym Gylch Gorchwyl ar hyn o bryd. Bydd un yn cael ei ddrafftio erbyn y cyfarfod nesaf. Bydd rolau a chyfrifoldebau yn dod yn gliriach ac atgyfnerthwyd nad Cynllun Cyngor yw hwn. Penderfyniad y Byrddau yw cynllunio'r hyn sydd i'w gyflawni gyda'i gilydd. Ni fydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniadau, felly mae angen i aelodau'r Bwrdd ymrwymo i fynychu cyfarfodydd i fodloni gofynion a gwneud penderfyniadau.<br><br>Cytunwyd bod angen i'r Bwrdd egluro cynhwysiad a chynnwys ar gyfer cyfarfodydd misol ar gyfer y chwe mis nesaf gan nad oes llawer o amser i greu'r Cynllun ac mae angen cynnal gweithdai.<br><br>Trafodwyd a oes angen dirprwyon gan fod angen ymrwymiad gan bob aelod i sicrhau ein bod yn cwrdd â dyddiadau cau Llywodraeth y DU.<br><br>Mynegodd SJ ei bryder gydag anawsterau wrth fynd i'r cyfarfod oherwydd ei ofynion plismona.<br><br>Teimlai GT y gallai cael dirprwyon wanhau'r broses a gwanhau trafodaethau.<br><br>Mynegodd SR faterion capasiti trwy beidio â chael dirprwyon. | Dosbarthu Cylch Gorchwyl newydd | ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd ZT yn gwerthfawrogi ymrwymiad cyfarfodydd misol am y chwe mis nesaf, a byddai'n anfon dyddiadau cyfarfodydd ymlaen llaw i gefnogi rheoli dyddiaduron.<br><br>Roedd PL yn teimlo bod angen sefydlu llywodraethu a hawliau pleidleisio fel y rheolau sylfaenol ar gyfer y Bwrdd.<br><br>Eglurodd AO fod y strwythur yn llywodraeth y DU yn wahanol i Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd ZT yn rhannu Cylch Gorchwyl drafft yn y cyfarfod nesaf. Cynhelir Cyfarfod Llywodraethu ganol mis Ebrill i drafod Cylch Gorchwyl ac aelodaeth ychwanegol. | Dyddiadau cyfarfodydd misol<br><br>Trefnu Cyfarfod Llywodraethu | ZT<br><br>ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB<br><br>CYN GYNTED Â PHOSIB |
| **Trafodaeth Ardal Derfyn ac Aelodaeth Ychwanegol y Dyfodol** | | | |
| Cafodd Ardal Derfyn Llywodraeth y DU ar gyfer y Rhaglen Drefi ei rhannu gyda'r Bwrdd. Hefyd, cyflwynodd ZT fap o Ffin Canol y Dref a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.<br><br>Nodwyd gan y Bwrdd nad yw £20m yn swm enfawr o arian i gwmpasu ardal sylweddol os yw'r cyllid am gael effaith fawr.<br><br>Ar gyfer sefydliadau Canol y Dref sydd yn aelodau o’r Bwrdd allai gael gafael ar gyllid byddai angen iddynt ddatgan buddiant yn y cyfarfodydd perthnasol pe bai angen.<br><br>Cytunodd y Bwrdd mai'r ardal derfyn ar gyfer y rhaglen fyddai Ffin Canol Tref a grëwyd ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd ond y gellid ystyried yr ardal gyffredinol yn ôl disgresiwn y Bwrdd. Felly, ni fyddai'r Ardal Derfyn yn cael ei diwygio, ond bydd ZT yn cadarnhau gyda Llywodraeth y DU y bydd y ffocws ar ganol y dref. | ZT to confirm boundary area with WG. | ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae angen bod yn agored a thryloyw o safbwynt y Bwrdd ac mae hyn hefyd yn ofyniad gan Lywodraeth y DU. | | | |
| **Eitemau Agenda y Dyfodol – Cynllun Creu Lle / Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad / Baner Borffor** | | | |
| Gofynnodd ZT a hoffai'r Bwrdd ystyried eitemau Agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel diweddariadau Cynllun Creu Lleoedd a chynnydd cais Baner Borffor. Cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd.<br><br>Mynegodd LM ei bod yn bwysig iawn gan fod hyn yn gwella gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ac yn bwysig cael adroddiadau ar yr eitemau hyn.<br><br>Ychwanegodd PL y gallai ddod â Phroffil Problem i'r Bwrdd. Gellid dod â'r rhain fel cynigion. | | | |
| **Amlder Cyfarfodydd** | | | |
| Penderfynodd y Bwrdd y byddai Cyfarfodydd Misol CHyD yn cael eu cynnal. | | | |
| **UFA** | | | |
| Doedd dim UFA. | | | |

**DYDDIAD CYFARFOD LLYWODRAETHU'R BWRDD 15 EBRILL**

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF 26 EBRILL**